

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Clinig Beauty Central

Dyddiad y gweithgarwch: 04 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Glinig Beauty Central fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o driniaethau laser, gan gynnwys gwaredu blew, adfywio'r croen a thriniaethau cysylltiedig eraill. Darperir yr holl driniaethau i oedolion sydd dros 18 oed.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 04 Awst 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod y trefniadau atal a rheoli heintiau a'r trefniadau glanhau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau eich bod yn cynnal urddas cleifion? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod staff wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn iddynt ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau y caiff triniaeth ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol, gan gynnwys y ffordd y caiff cyfarpar laser ei gynnal a'i gadw yn briodol?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol a'r asesiadau COVID-19 diweddaraf
- Polisi diogelwch tân
- Tystysgrif yswiriant atebolrwydd

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y rhain yn cynnwys gosod marciau yn yr ardaloedd aros er mwyn annog pobl i gadw pellter cymdeithasol, rhoi polisi drws ar gau ar waith i reoli llif y cleifion, a gosod desg wrth y fynedfa er mwyn sgrinio ar gyfer COVID-19 a chasglu manylion monitro ac olrhain.

Roedd y gwasanaeth wedi rhoi polisi llym ar wisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar waith ac roedd disgwyl i bob claf wisgo masg yn yr adeilad ar bob adeg. Roedd y gwasanaeth hefyd yn defnyddio gorchuddion untro ar gyfer y gwelyau yn yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafelloedd ymolchi, ynghyd â PPE llawn ar gyfer pob gweithiwr.

Roedd y camau hyn yn cael eu cefnogi gan asesiad risg COVID-19, a oedd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys camau priodol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y camau hyn wedi cael eu rhoi ar waith a gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi cytuno â'r asesiad risg pan gawsant eu penodi.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod asesiad risgiau tân wedi'i gynnal yn y 12 mis diwethaf a bod y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu'n ddiweddar.

Gwnaethom gadarnhau bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddilys ar gael.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y caiff urddas y cleifion ei flaenoriaethu ar bob cam o'r broses. Cawsom wybod bod yr ystafelloedd ar gael i'r cleifion gael preifatrwydd i newid cyn ac ar ôl cael triniaeth. Darparwyd tyweli a gorchuddion personol hefyd er mwyn i'r cleifion deimlo'n gyfforddus yn ystod eu triniaeth.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisi rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig nifer o newidiadau yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys archwilio'r staff a'r cleifion i gadarnhau nad oedd ganddynt symptomau COVID-19 cyn dod i mewn i'r clinig, darparu cyfleusterau hylendid dwylo priodol a rhoi mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Ar ôl cyrraedd y clinig, caiff yr holl gleifion eu sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19 a gofynnir iddynt ddarparu eu manylion ar gyfer y gwasanaeth monitro ac olrhain.

Cawsom wybod bod amser ychwanegol wedi'i neilltuo rhwng apwyntiadau er mwyn gallu glanhau ardaloedd y clinig yn ddigonol, a bod peiriant iClean<sup>1</sup> yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod arwynebau'n cael eu diheintio'n effeithiol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio i sicrhau y gall y staff gofnodi tasgau glanhau a gaiff eu cwblhau yn y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant gyda'r gwasanaeth, ynghyd â cheisio cyngor proffesiynol i sicrhau bod mesurau COVID-19 ar waith yn effeithiol.

Cefnogwyd y trefniadau hyn gan asesiad risg COVID-19 cynhwysfawr, a oedd yn dangos bod mesurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â risgiau i'r gwasanaeth.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod amrywiaeth o ganllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau gwasanaethau cysylltiad agos Llywodraeth Cymru<sup>2</sup>, wedi cael eu defnyddio wrth adolygu'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Roedd yn galonogol nodi bod y gwasanaeth wedi cysylltu'n rhagweithiol â'i ddarparwyr ar gyfer cymorth iechyd a diogelwch, ynghyd â'i yswirwyr atebolrwydd, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau.

Nodwyd bod y gwasanaeth wedi cael rhai anawsterau wrth geisio cael hyfforddiant ffurfiol ar reoli heintiau, ond gwelsom dystiolaeth bod cwrs i aelodau newydd o'r staff wedi'i drefnu yn y dyfodol agos. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau nes y gellid cwblhau'r

---

<sup>1</sup> Mae peiriant iClean yn troi dŵr tap yn hylif glanhau a diheintio.

<sup>2</sup> [Gwasanaethau gwallt, harddwch, cyfannol, tatŵ a thyllu'r corff: canllawiau'r coronafeirws i weithleoedd](#)

---

hyfforddiant hwn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Datganiad o ddiben
- Canllaw i gleifion
- Contractau ar gyfer gwaredu gwastraff
- Contract ar gyfer cynnal a chadw cyfarpar tân
- Hyfforddiant staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau sy'n cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod staff newydd yn addas. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweliadau a cheisio geiradon ar gyfer pob gweithiwr newydd.

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>3</sup>, ynghyd â hyfforddiant ategol i wella ei sgiliau ymhellach. Gwelsom hefyd fod hyfforddiant wedi'i drefnu i'r aelod mwyaf newydd o'r staff, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cydymffurfio â phrosesau a gweithdrefnau'r gwasanaeth.

Roedd pob aelod o'r staff yn y gwasanaeth wedi ymgymryd ag Aseiad Risg Cymru Gyfan i adolygu ei ddiogelwch i weithio yn ystod pandemig COVID-19; roedd rhagofalon diogelwch wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r aseidiadau unigol.

Gwelsom nifer o gontractau ar gyfer prosesau rheoli effeithiol gan gynnwys gwastraff clinigol, cynnal a chadw cyfarpar tân, adnoddau dynol a chyfraith cyflogaeth. Roedd hyn yn rhoi sylfaen gynhwysfawr ar gyfer trefniadau llywodraethu cyffredinol y clinig, ac yn golygu y gallai'r gwasanaeth gael gafaél ar nifer o adnoddau cymorth.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

<sup>3</sup> Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi darparu triniaethau'n ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i esbonio triniaethau i gleifion, sut y caiff anghenion triniaeth eu hasesu a'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfarpar laser.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Cesglir hanes meddygol y claf fel rhan o'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau bod y driniaeth dan sylw yn addas.

Nodwyd bod angen i'r cleifion gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth, ac yna mewn apwyntiadau dilynol. Roedd y broses hon yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r buddiannau, ynghyd â chanlyniad tebygol y driniaeth dan sylw.

Gwnaethom ystyried y ffordd roedd y cyfarpar laser a'r ddogfennaeth gysylltiedig wedi cael eu cynnal drwy gydol y pandemig i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Gwnaethom nodi'r canlynol:

- Roedd protocolau triniaeth wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan weithiwr proffesiynol a oedd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Roedd y cyfarpar laser wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar ac nid oedd unrhyw faterion cynnal a chadw yn weddill
- Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) wedi cael ei benodi ac roedd y gwasanaeth yn ymwybodol o'r ffordd y byddai'n cysylltu ag ef pe bai angen cyngor ar ddefnyddio'r cyfarpar laser yn ddiogel
- Roedd y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

Roedd cymorth clinigol ar gael i'r gwasanaeth drwy wasanaethau cymorth y gwneuthurwr. Dywedwyd wrthym fod hyn yn helpu i ddarparu ffynhonnell ychwanegol o gymorth os bydd ymholiadau yn ymwneud â chlaf a'r driniaeth a ddewisodd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.